Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru
National Music Service Wales

# Newyddlen #2 Haf 2023

## Wel, am fisoedd cyntaf eithriadol o brysur! Mae cymaint o waith cychwynol y Cynllun Cerdd Cenedlaethol wedi cael ei gyflawni'n barod yn y ddau dymor cyntaf. Diolch i bawb sydd wedi ymuno â ni ar y daith, gan obeithio hefyd eich bod chi, fel ninnau, yn gyffrous am y cynnydd yn y ddarpariaeth.

## 'Profiadau Cyntaf'

**Y camau cyntaf mewn unrhyw gynllun ydy'r camau pwysicaf, a dyna pam bod cymaint o'r pwyslais hyd yn hyn wedi cael ei roi ar sicrhau bod y cynllun Profiadau Cyntaf yn cael ei wreiddio'n dda.**

Nod Profiadau Cyntaf ydy sicrhau fod cynifer â phosibl o blant yn cael cyfle i gael tro ar ddysgu offeryn cerdd, neu fyw profiad cerddorol, gan gyfoethogi datblygiad cerddorol ac emosiynol plant ysgolion cynradd.

Mae holl wasanaethau cerdd Cymru bellach yn darparu eu cynllun 'Profiadau Cyntaf, gan ddaparu 6 wythnos neu fwy o hyfforddiant offerynnol i ddosbarthiadau heb unrhyw gost i'r ysgol. Ry'n ni'n gyffrous i weld cymaint o amrywiaeth yn yr arlwy ar draws Cymru, gyda'r cynllun hwn yn rhoi cyfle i athrawon dosbarth serennu ochr yn ochr a'n tiwtoriaid. Bydd POB ysgol gynradd yng Nghymru yn derbyn y cynnig hwn dros y tair blynedd nesaf. Os nad ydych chi wedi cael cynnig eto, mi fydd yn dod atoch cyn hir. Er mwyn darganfod mwy am yr amserlen honno cysylltwch â'ch Gwasanaeth Cerdd lleol. Mae eu manylion ar ein gwefan **www.gwasanaethcerdd.cymru**

Mae'r ymateb gan yr ysgolion sydd eisoes wedi derbyn y cynllun hwn yn eithriadol o gadarnhaol, gyda rhai plant yn cydio mewn offeryn am y tro cyntaf erioed. Wrth weithio gyda cherddor yn y dosbarth am gyfnod estynedig mae'n gyfle i gynyddu hyder athro dosbarth. Dywedodd Amanda Williams, Dirprwy Bennaeth Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych:




*"Mae'n braf iawn cael cerddor i mewn i'r Ysgol … rhywun gwahanol. Mae hyder y plant 'di codi. Mae'r plant bach distaw wedi gallu chwarae efo pawb arall, a rhoi tro arni. O'r blaen, ella os na fydda digon o offerynau, fydden nhw ddim 'di mynd draw at y bocs a dewis offeryn. Ond mae 'na offeryn i bawb, ac mae hynny o fudd mawr."*

O ganlyniad i'r gwersi Profiadau Cyntaf mae rhai plant wedi cael eu sbarduno i barhau ag addysg gerddoriaeth drwy ymgymryd â gwersi unigol, ac eraill yn barod wedi ymuno gyda ensembles lleol am y tro cyntaf.

Cafodd Lucas, Betsan, Scarlett, Hazel, Billy, Leo ac Olivia o Ysgol Castellau, Beddau, eu gwers glockenspiel gyntaf ym mis Ionawr 2023 fel rhan o'r cynnig Profiadau Cyntaf. Cymaint yw brwdfrydedd y criw ers y wers gyntaf honno bod pob un wedi ymuno â Band Chwyth Iau eu sir, Rhondda Cynon Taf, er mwyn ymarfer eu sgiliau ymhellach.



Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**
CLLLC WLGA

### Dathlu Profiadau Cyntaf

O fis Ionawr hyd mis Gorffennaf mae sawl cyngerdd Profiadau Cyntaf wedi cael eu cynnal ar draws Cymru – o Gaerdydd i Gastell Nedd; o Wynedd i Wrecsam. Fel rhan o'r cyngherddau yma bu plant yn perfformio ar lwyfan, rhai am y tro cyntaf erioed. Dyma oedd pen llanw taith i'r ysgolion sydd eisoes wedi derbyn y cynnig Profiadau Cyntaf, ac roedd yna frwydfrydedd heintus ar bob un llwyfan. Mewn sawl un o'r cyngherddau yma fe welson ni blant yn chwarae offeryn pBuzz sydd wedi cael eu rhannu gyda'r holl wasanaethau cerdd.

## Charanga Cymru

Platfform cerdd digidol yw **Charanga Cymru** sydd wedi bod ar gael am ddim i holl ysgolion Cymru ers mis Hydref 2022. Mae wedi bod yn flwyddyn gyntaf gyffrous o weld cynnifer o ysgolion yn defnyddio'r adnodd newydd hwn yn y dosbarth.

Hyd yn hyn, mae dros 700 o ysgolion wedi mewngofnodi i'w cyfrifon, ac mae gan fwy na 3,100 o athrawon yn yr ysgolion hynny eu cyswllt personol eu hunain i'r platfform. Mae'n stori debyg mewn gwasanaethau cerdd lleol, lle mae dros 300 o diwtoriaid yn manteisio ar y cynnwys er mwyn hwyluso eu gwersi nhw, ac i gefnogi athrawon dosbarth. Gyda'i gilydd, mae athrawon wedi bod yn defnyddio'r platform am gyfanswm o bron a bod 21,000 awr! Wrth gynnal sesiynnau hyfforddi bu Charanga yn gwrando ar eich adborth chi fel athrawon ledled Cymru i ddysgu mwy am yr hyn yr hoffech ei weld arno. Felly, dyma grynodeb o'r hyn sy'n dod ar gyfer dechrau Tymor yr Hydref:

### Adnoddau'r cwricwlwm

- Mwy o'r unedau cerddoriaeth ar waith poblogaidd ar gyfer Cam Cynydd 1
- Wyth uned newydd sbon ar gyfer Camau Cynydd 2–3
- Prosiectau YuStudio Ychwanegol yn Camau Cynydd 4 i helpu i ehangu mynediad at dechnoleg cerddoriaeth.



### Ar gyfer 'Profiadau Cyntaf'

Mae Charanga Cymru hefyd yn edrych ar y llyfrgell adnoddau presennol (ar gyfer 26 offeryn) ac yn cynhyrchu prosiectau blaengar 6–10 wythnos o hyd, i'w gwneud hi'n haws i chi gyflwyno'r rhaglenni i blant. Bydd deunyddiau newydd yn cynnwys Ukulele, a chwrs canu a strymio ar gyfer gitâr.

### Ychwanegiadau at y platfform

Yn seiliedig ar eich adborth, gallwch edrych ymlaen at dri maes newydd sy'n benodol ar gyfer caneuon, offer creadigol, a deunyddiau o'ch gwasanaeth cerdd lleol.

### Hyfforddiant

Nod y **Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol** yw sicrhau ein bod ar flaen y gad wrth gynnig yr addysg gerdd gorau posib i'n plant a phobl ifanc, ac i chi fel athrawon ac ysgolion. Gyda dyfodiad y Cynllun Cerdd Cenedlaethol mae ganddon ni'r gallu i fuddsoddi mewn hyfforddiant, sydd yn eithriadol o bwysig, am fod ganddon ni dalent cerddorol arurthol yma yn rhengoedd gwasanaethau cerdd Cymru.

Dros y chwe mis diwetha cafwyd sawl cwrs hyfforddiant, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn sirol. Mewn sawl sir, oherwydd yr heriau ariannol, dyma oedd yr hyfforddiant cyntaf ers peth amser. Ry'n ni wedi bod yn rhannu arfer dda ar draws pob sir, a datblygu ein haddysgeg ar gyfer dysgu y gwahanol elfennau hanfodol sy'n rhan o'r Cynllun Cerdd Cenedlaethol.

Daw'r angen am hyfforddiant yn fwy-fwy pwysig wrth i ni baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd. Ry'n ni'n cyd-weithio yn agos gyda'r gwahanol consortia addysg i greu modiwl newydd, er mwyn hwyluso'r newid yn y drefn o ddysgu.

*"Mae'r ffaith bod cerddoriaeth yn dod yn ôl I'r dosbarth, sydd wir yn mynd I gael effaith ar blant, mae'n bwysig ein bod ni'n sylweddoli pa mor werthfawr mae hynny'n mynd I fod. Mae cerddoriaeth yn rhan o'n bywydau ni bob dydd, ond mae'n cynnig gymaint mw yna hynna. Mae'n cynnig agor dy ddychymyg di, dy allu i gyd-weithio, dy wytnwch di. Mae'r plant yma nawr yn mynd i gael cyfleoedd sydd wedi bod ar goll ers rhai blynyddoedd bellach, ac mae'n gyffrous gweld pethau'n dechrau dwyn ffrwyth."*

**Alan Thomas Williams**
*Swyddog Cwricwlwm,*
*Cyngor Sir Caerdydd*
*Curriculum Officer,*
*Cardiff County Council*



## Cynhadledd Profiadau Cyntaf

Ddiwedd mis Ionawr, fe gynhalion ni **gynhadledd Profiadau Cyntaf** yn Aberystwyth, lle cafodd athrawon o'r holl wasanaethau cerdd hyfforddiant arbennig gan Rachel Cooper o Music Masters, yn ogystal â sesiwn hyfforddiant pellach ar ddefnyddio Charanga Cymru o fewn y dosbarth. Cawsom ymateb gwych gan y rhai a fu yno, a ddywedodd: *"I enjoyed it all, it reinforced my own practices as a teacher as well as new ideas. Thanks!"* Ymateb arall a gawson ni oedd: *"So important to all get together as a service and as a country. For some staff it was a first for many years, but it is much appreciated."*

Y diwrnod hwnnw hefyd fe gawson ni gyflwyniad gan Dr Beth Pickard ar y ddarpariaeth I blant ac anghenon arbennig. Ers hynny ry'n ni wedi cwblhau gwaith ymchwil i adnabod yr angen am hyfforddiant i gerddorion a fyddai'n hoffi datblygu sgiliau mewn gweithio mewn ysgolion arbennig. Ry'n ni nawr yn y broses o greu'r hyfforddiant hwnnw, a bydd y wybodaeth yna'n cael ei rannu gyda chi yn nhymor yr Hydref.

## Newyddion da

Dros y misoedd diwethaf ry'ch chi wedi bod yn anfon eich lluniau aton ni o'r holl weithgarwch yn ymwneud â'r cynnig **Profiadau Cyntaf**. Mae hi wedi bod yn hyfryd cael rhannu'r bwrlwm cenedlaethol wrth i blant elwa o'r amrywiaeth o wersi cerddorol. Cofiwch gyfrannu a rhannu eich profiadau cerddorol gyda ni:

- ar Twitter @gwascerddcymru
- ar Facebook @Gwasanaeth CerddCenedlaethol
- Defnyddiwch yr hashnod #gccc a #profiadaucyntaf
- Ewch draw i'n gwefan i weld y newyddion diweddaraf hefyd **www.gwasanaethcerdd.cymru**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CLILC WLGA







## Beth arall sy'n digwydd?

Ar **Ddydd Miwsig Cymreig** ym mis Mawrth bu athrawon, cerddorion, gwleidyddion a hyd yn oed James Dean Bradfield o'r Manic Street Preachers yn rhannu eu hatgofion nhw am eu profiadau cerddorol cyntaf, er mwyn annog mwy o blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth.

Gobeithio eich bod chi, fel ninnau, wedi bod yn mwynhau'r cyngherddau corau, bandiau ensembles sydd wedi ail-gydio ynddi wedi'r cyfnod Covid hir. Ar ôl i Lywodraeth Cymru fuddsoddi'n helaeth mewn offerynau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hi wedi bod yn fendigedig gweld cymaint o'r offerynau yna ar waith mewn cyngherddau ac mewn dosbarthiadau.

Mae llawer o'n gwaith ni fel y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol hefyd yn ymwneud â datblygu partneriaethau gydag asiantaethau sy'n cynnig profiadau a chyfleoedd cerddorol i blant y tu allan i'r dosbarth. Er mwyn sicrhau ein bod yn rhannu newyddion, adnabod cyfleuoedd a dathlu yr arlwy gerddorol sydd ar gael I blant a phobl ifanc Cymru ry'n ni'n cynnig y cyfle I chi ymuno â Fforwm Agored Gwasnaeeth Cerdd Cenedlaethol Cymru. Dair gwaith y flwyddyn, byddwn yn crwydro I amryw o leoliadau artistig ar hyd a lled Cymru, gan fanteisio hefyd ar y cyfle I daflu golau ar weithgaredd yr ardal benodol honno. Os hoffech chi wneud cais i siarad yn un o'r cyfarfodydd Fforwm, neu os hoffech chi ddod i wrando, cysylltwch â ni ar post@gwasanaethcerdd.cymru

## Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd

Fe fyddwn ni ar faes yr **Eisteddfod Genedlaethol** eleni, diolch i wahoddiad gan Wasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn. Dewch i chwilio amdanon ni – chwiliwch am babell Gwasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn, dewch i drio offerynnau, ac i gael gwybodaeth am y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol, ac i ddarganfod mwy am y gwasanaethau cerdd, mudiadau, partneriaid a grwpiau sy'n rhoi cyfleoedd i blant greu cerddoriaeth yn eich ardal chi.

**Mi fydd cymaint mwy i'w drafod yn ein newyddlen nesaf. Tan hynny, diolch unwaith eto am eich gwaith caled a'ch cyd-weithrediad. Hwyl!**



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CLlLC WLGA